Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# AaGIC

# Diffinio'r cwmpas ar gyfer Cynllun Gweithlu Strategol

## Diffinio'r cwmpas ar gyfer cynllun gweithlu strategol.

### Beth yw'r cwmpas?

Un o'r camau cyntaf yn y broses o ddatblygu'ch cynllun gweithlu strategol fydd datblygu a chytuno ar gwmpas y cynllun. Gan fod cynlluniau gweithlu strategol yn tueddu i fod yn gymhleth ac yn hirhoedlog, mae'n hanfodol bod yr holl randdeiliaid allweddol ac Arweinydd y Rhaglen yn cytuno ar y cwmpas. Dylid gwneud hyn ar y dechrau a chyn bwrw iddi ag unrhyw waith sylweddol.

Mae'r cwmpas yn gwasanaethu fel map i sicrhau fod pawb ar y trywydd iawn ac yn ymdrechu i gyrraedd yr un nod. Trwy ddiffinio cwmpas y prosiect yn glir ymlaen llaw, gallwch osgoi unrhyw gamddealltwriaeth neu gamgyfathrebu yn ogystal â gordwf posibl a allai danseilio'r prosiect maes o law.

Mae diffinio'r cwmpas yn ymrwymiad sylweddol a gall gymryd sawl wythnos i gwblhau'r orchwyl. Bydd y cwmpas yn eich galluogi i ddiffinio a chytuno ar eich bwriad a'r rhesymeg dros datblygu'r cynllun. Bydd yn nodi'n glir yr hyn sydd o fewn terfynau'r gwaith a'r hyn sydd y tu hwnt i'r terfynau hynny. Bydd yn sicrhau cytundeb rhyngoch chi a'r rhanddeiliaid hanfodol cyn ymgymryd ag unrhyw waith helaeth. Bydd hefyd yn helpu i nodi a chrisialu perchnogaeth y cynllun h.y. pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun terfynol y cytunir arno.

Mae cwmpas cynllun gweithlu strategol yn nodi'n glir pa agweddau ar wasanaeth sy'n cael eu hystyried a pha elfennau o'r gweithlu sy'n cael eu hystyried. Yn yr un modd, mae'n nodi unrhyw elfennau o ran y gweithlu sydd y tu hwnt i ystyriaeth y cynllun a'r rhesymau am hynny.

### Pam datblygu cwmpas?

Er mwyn deall eich cwmpas, rhaid i chi fod yn glir ynghylch eich rhesymau dros ddatblygu cynllun gweithlu strategol. Rhaid hefyd ichi bennu'ch amcanion a'r strategaethau i'w hystyried. Gall y camau yn y tabl isod eich helpu i ddiffinio'ch cwmpas.

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | **Deall pam y cafodd y prosiect ei ysgogi yn y lle cyntaf.**<br>Beth sy'n cymell y prosiect, pam rydych chi'n ymgymryd ag o? A yw'n amcan strategol? |
| **Cam 2** | **Diffinio'r amcanion.**<br>Beth rydych chi'n bwriadu ei gyflawni? Beth rydych chi'n ei ystyried yn rhinwedd eich cynllun? |

| | | |
|---|---|
| **Cam 3** | **Dynodi'r prif gyflawniadau.**<br>Beth fydd yr allgynnyrch neu'r allbynnau? Beth yw'ch amserlen - tymor byr, canolig a thymor hir? |
| **Cam 4** | **Nodi'r hyn sydd o fewn y cwmpas a'r hyn sydd y tu allan i'r cwmpas.**<br>Mae angen i chi fod yn glir ynghylch beth sydd o fewn y cwmpas a beth sydd y tu allan i'r cwmpas. Sut fyddech chi'n dynodi hyn? |
| **Cam 5** | **Nodi'r cyfyngiadau.**<br>Beth yw'r cyfyngiadau? A yw eich gwaith yn dibynnu ar fewnbwn gan eraill ynghyd â'u cytundeb a'u cymeradwyad? Pwy yw eich rhanddeiliaid? Beth yw'ch trefniadau llywodraethu? |

Bydd angen i chi hefyd ddynodi perchennog y cynllun, y sawl sydd i'w cynnwys yn natblygiad y cynllun neu'r datrysiad er budd y gweithlu a sut y caiff y rhaglen/prosiect ei reoli. Mae hyn yn cynnwys y strwythur llywodraethu. Mae trefniadau llywodraethu clir yn hanfodol i sicrhau bod eich cynllun yn cael ei gyflawni'n unol â'ch amserlen a bod eich rhanddeiliaid allweddol yn cael eu nodi a'u cynnwys. Mae hefyd yn sicrhau bod gennych broses glir er budd adrodd ar gynnydd a cherrig milltir a'u monitro. Gallwch ddarllen rhagor am hyn, yn ogystal â phwysigrwydd trefniadau llywodraethu wrth ddatblygu cynllun gweithlu, yng Ngham 1 y Canllaw Cynllunio Gweithlu.

Y perchennog fel arfer yw'r unigolyn neu'r Bwrdd Rhaglen ayb sydd wedi comisiynu'r darn o waith. Wedi i chi ddynodi'r perchennog, mae angen i chi ddynodi'r gofyniad yn glir a meithrin cyd-ddealltwriaeth ohono. Hynny yw, beth yw'r deilliant y mae'r perchennog yn ei ddeisyfu.

Mae'n syniad doeth trafod gyda pherchennog / perchenogion y cynllun - mae hwn yn gam cyntaf pwysig yn natblygiad y cwmpas. Bydd yn rhoi mewnwelediad i'r hyn sydd ei angen. Bydd hefyd yn rhoi cefndir i'r rhesymau dros greu'r cynllun ac yn eich helpu i ddiffinio'r cwmpas. Mae diffinio cwmpas yn helpu i sicrhau cytundeb ar ddechrau'r rhaglen waith ac yn ymorol bod y gwaith a wneir yn hylaw ac yn sicr o gynhyrchu'r deilliannau sy'n ofynnol.

**Mae datblygu'ch cwmpas yn broses greiddiol yng Ngham 1 y Chwe Cham® i Gynllunio'r Gweithlu (diffinio'r cynllun).**

### Sut i ddatblygu cwmpas

Gallwch ddynodi'r cwmpas trwy ymgymryd â dau gorff allweddol o waith, sef cynnal **ymchwil** a **mapio strategaeth**. Mae cynnal ymchwil yn hanfodol ar ddechrau'r broses o ddatblygu cynllun gweithlu strategol. Mae'n sicrhau'ch bod yn nodi'r cyd-destun sy'n sail i ddatblygiad y

cynllun, o safbwynt y gweithlu ac o safbwynt strategaeth. Bydd ymchwil yn amlygu meysydd ble y gallai gwaith tebyg fod wedi'i gynnal eisoes. Bydd hefyd yn fodd o graffu ar y gorwel, o ystyried natur hir dymor cynlluniau gweithlu strategol. Mae AaGIC yn datblygu canllawiau er budd cynnal ymchwil ac mae wedi cynhyrchu templed, sydd i'w ganfod yn **Atodiad 2**, i chi gofnodi a dadansoddi'ch canfyddiad.

Bydd ymgymryd â Map Strategaeth yn eich helpu i nodi'r prif ysgogwyr strategol sy'n cymell datblygiad cynllun gweithlu cenedlaethol.  Efallai y bydd hefyd yn ddefnyddiol i chi gynnal sgyrsiau ymgysylltu lefel uchel gyda rhanddeiliaid allweddol. Bydd hyn yn helpu i ysbrydoli, siapio ac asesu'r cwmpas datblygol.

Yn olaf, mae hefyd yn hanfodol ichi gynnal ymarfer cwmpasu i gloriannu gweithiau eraill sydd ar y gweill e.e. o fewn eich sefydliad, y gwasanaeth neu'n genedlaethol. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol nodi p'un a oes unrhyw ddarn cenedlaethol o waith a allai ategu cyflawniad eich cynllun. Gall enghreifftiau gynnwys gwaith sy'n cael ei wneud gan AaGIC, Rhaglenni Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru. Yna, dylech allu nodi cydgysylltiadau a allai ddylanwadu ar eich gwaith o ddatblygu cynllun gweithlu strategol. Bydd eich camau gweithredu o bosibl yn cyd-fynd â gwaith parhaus yn y meysydd cydgysylltiol hyn e.e. cynlluniau datblygu addysg neu rolau newydd. Bydd yr orchwyl hon yn cynnwys nodi a deall pa elfennau o'ch rhaglen waith a fydd yn cael eu dylanwadu arnynt gan gyrff eraill o waith. Bydd hefyd yn nodi pa elfennau o'ch rhaglen waith a allai ddylanwadu ar weithiau eraill. Mae templed enghreifftiol wedi'i gynnwys yn Atodiad C.

## Atodiad A - Enghraifft o gwmpas prosiect

Mae'r prosiect hwn wedi'i sefydlu i amlinellu'r gwaith sy'n angenrheidiol i ategu'r rhaglen waith xxx. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu tuag at Amcan Strategol xxx.

Nod y prosiect yw ategu'r rhaglen xxx .... Amcanion penodol y prosiect yw:-

- Amcan 1 (e.e. Amcan IMTP 1)
- Amcan 2 (e.e. Amcan IMTP 2)

Deilliannau'r prosiect hwn fydd:

- xxx
- xxx

Mae cwmpas y prosiect wedi'i gyfyngu i ystyried xxx.

Mae cyfyngiadau'r prosiect yn cynnwys cymorth gan ....... a ystyrir yn hanfodol i ategu'r gwaith hwn. Bydd hyn yn cynnwys xxx.

### Enghraifft o gwmpas Gofal Sylfaenol

Ffocws ar y gweithlu sy'n gweithio'n uniongyrchol ym maes gofal sylfaenol,gan gydnabod bodmeysydd gwaith eraill yn cael eu datblygu i ystyried y gweithlu sy'n angenrheidiol iddarparu gwasanaethau cymunedol cofleidiol, gan gynnwys y rhai a ddarperir ym maes gofal cymdeithasol a chan y gwasanaethau annibynnol ac anstatudol.

Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol mewn practisau, clystyrau neu batrymau daearyddol eraill (contractwyr annibynnol / practisau dan reolaeth / modelau a gyflogir gan Fyrddau Iechyd)

2. Y gweithlu sy'n angenrheidiol i ddarparu gofal sylfaenol i grwpiau agored i niwed (e.e. poblogaethau carchardai)

3. Y gweithlu sy'n angenrheidiol i ddarparu gofal sylfaenol brys (GPOOH) a gwasanaethau clinigol cyswllt cyntaf. (e.e. 111)

## Atodiad B – Templed ar gyfer Ymchwil

**Canllawiau**

Mae'n bwysig bod eich cynllun gweithlu'n cynnwys penderfyniadau wedi'u llunio ar sail tystiolaeth. Bydd y templed hwn yn eich helpu i grynhoi'r ymchwil a'r astudiaethau sydd wedi'u cynnal. Gellir defnyddio'r templed i'ch helpu i ddatblygu'r camau gweithredu a'r argymhellion ar gyfer eich cynllun. Gellir ei ddefnyddio hefyd i ategu'r hyn rydych yn ei wybod eisoes.

Nid yw'r cyhoeddiadau a gynhwysir yn ddogfen hon yn strategaethau o eiddo'r Llywodraeth. Felly, nid yw'n ***ORFODOL*** i chi eu hymgorffori yn eich cynllun. Mae'r ymarfer hwn yn bwysig er mwyn ichi fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ac unrhyw ganfyddiadau arwyddocaol a ddaw i'r amlwg yn sgil yr ymchwil.

| Templed Ymchwil | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dolenni i ddogfennau/cyhoeddiadau** | **Beth mae'r ddogfen/cyhoeddiad yn ei ddatgelu am y gweithlu?** | **Beth mae'r ddogfen/cyhoeddiad yn ei ddatgelu am dechnoleg ddigidol a'i heffaith o ran galluogi'r gweithlu?** | **Beth yw'r prif argymhellion gan gyrff proffesiynol / colegau brenhinol?** | **A oes unrhyw argymhellion eraill gan sefydliadau eraill (h.y. *Kings Fund*, Ymddiriedolaeth Nuffield ac ati)?** |
| Sicrhewch fod yr ymchwil rydych yn ei ddefnyddio yn gyfoes ac yn gywir.<br><br>Ystyriwch amrywiaeth o elusennau a chyrff proffesiynol a allai fod yn cynnal ymchwil e.e. MacMillan ar gyfer gwasanaethau canser neu'r NMC os ydych yn ystyried y gweithlu Nyrsio a Bydwreigiaeth. | | Dylid ystyried arloesedd digidol a thechnolegol ar gyfer pob cynllun yn sgil datblygiadau hynod gyflym ym mhob maes. | Gwiriwch a oes unrhyw gyrff proffesiynol neu golegau brenhinol wedi darparu argymhellion ar gyfer y maes ymchwil hwn. | Mae Ymddiriedolaeth Nuffield a *Kings Fund* yn cynnal ymchwil er budd iechyd a gofal cymdeithasol, felly mae'r rhain yn sefydliadau addas i'w hystyried. |

# Atodiad C – Templed ar gyfer ymarfer Cwmpasu i gloriannu gweithiau eraill

| **Cwmpasu gweithiau eraill a allai ddylanwadu ar eich cynllun gweithlu neu a allai gael eu dylanwadu arnynt**<br><br>**Canllawiau**<br>Dylai eich ymarfer cwmpasu gynnwys unrhyw raglen neu brosiect penodol o fewn eich sefydliad. Dylai hefyd gynnwys cyrff/rhaglenni eraill sy'n berthnasol i'ch sefydliad neu'ch cynllun gweithlu, er enghraifft AaGIC, DHCW, Rhaglenni Cenedlaethol a'r Gymraeg. | | | |
|---|---|---|---|
| **Manylion Cyswllt** | **Prosiect / Rhaglen** | **Amcanion** | **Sut mae hyn yn ategu'r cynllun gweithlu** |
| Mae Gweithrediaeth GIG Cymru yn lle da i ddechrau ar gyfer Rhaglenni Cenedlaethol.<br><br>Ewch at wefan AaGIC ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu Cenedlaethol<br><br>Portffolio a RhaglenniIechyd a Gofal Digidol Cymru | | | |